

Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc held at Remote Meeting on Dydd Mawrth, 8fed Medi, 2020 at 10.00 am

Cynghorwyr yn Bresennol

County Councillor T.Thomas (Chairman)
County Councillor (Vice Chairman)

County Councillors: L.Brown, M.Groucutt,
M.Lane, M. Powell and J.Watkins

Swyddogion yn Bresennol

Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu
Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc
Sharon Randall-Smith, Pennaeth Cyflawniad a
Chyrhaeddiad
Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu

Ymddiheuriadau: Councillors L.Jones and D. Jones

1. Datganiadau o Fuddiant

Mynegodd Maureen Powell ddiddordeb fel llywodraethwr Ysgol Gyfun Brenin Harri VIII.

2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

3. Perfformiad Arholiadau Ysgolion Haf 2020: Diweddariad Llafar gan Will McLean, Prif Swyddog, Cyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc

Y ddau gam o addysg i'w trafod yw Cyfnod Allweddol 5 (disgyblion sy'n gadael yr ysgol yn 18 oed, ar ôl cwblhau cymwysterau Safon Uwch a BTEC yn nodweddiadol) a Chyfnod Allweddol 4 (diwedd addysg statudol.) Y peth cyntaf i'w gwmpasu yw'r penderfyniadau a wneir dros ranbarth GCA (GCA yw ein partneriaid ym maes gwella ysgolion, gan weithio'n agos gyda'n hysgolion ac fel rhan o'r darlun cenedlaethol.) Mae'r ffordd yr ydym yn defnyddio data perfformiad wedi newid yn sylweddol: y dyddiau cyhoeddi ar y diwrnod sut y mae pob ysgol wedi llwyddo, y cyfraddau pasio, ac ati wedi ein gadael i raddau helaeth. Mae hyn am reswm da, gan eu bod wedi arwain at ymddygiadau nad oeddent yn gadarnhaol, gydag ysgolion yn gwneud penderfyniadau ynghylch sut roeddent yn cofnodi plant ar gyfer rhai cymwysterau, a'r ffordd yr oeddent yn dysgu plant. Nawr, mae canlyniadau arholiadau yn rhan allweddol o'r ffordd rydyn ni'n gweithio gydag ysgolion, ond maen nhw'n cael eu defnyddio mewn ffordd fwy eiliw a sensitif.

Trwy gydol mis Mai a mis Mehefin, cynhaliodd Cymwysterau Cymru (y rheolydd annibynnol yng Nghymru) ymgynghoriad â rhanddeiliaid ynghylch sut y byddai'n safoni canlyniadau arholiadau yng Nghymru yr haf hwn. Codwyd pryderon ynghylch y broses honno, ond buom yn gweithio drwyddi gyda Chymwysterau Cymru, ac roedd Llywodraeth Cymru yn amlwg yn cymryd rhan hefyd. Penderfynwyd ar yr algorithmau, sydd bellach yn enwog, fel y broses ar gyfer pennu'r graddau. Wrth inni agosáu at ddiwrnod Safon Uwch yn benodol, roedd dyfalu dwysach ynghylch sut y byddai'r

algorithm yn gweithio, a'r effaith y gallai ei chael ar fyfyrwyr. Yng Nghymru, gwnaed sawl trafodaeth a phenderfyniad mewn nifer o ddyddiau, a oedd yn effeithio ar y ffordd y mae plant yn derbyn eu canlyniadau arholiad. Y cyntaf, ar gyfer Cyfnod Allweddol 5, oedd cyhoeddiad y Gweinidog ar 12fed Awst y byddai unrhyw fyfyrwr yn gallu cyrchu ei radd Lefel UG pe bai'n well na'r radd Lefel Safon Uwch a bennir gan algorithm (ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf, mae plant yn eistedd eu Lefel UG, sy'n ffurfio 40% o'u Lefel Safon Uwch, ac yn yr ail flwyddyn maent yn sefyll eu Safon Uwch, sy'n ffurfio'r gweddill.) Ar 13eg Awst, cyhoeddwyd canlyniadau'r arholiadau. Cefnogodd yr ysgolion eu plant, fel bob amser, a buont yn gweithio'n galed i wneud synnwyr o'r cyhoeddiad y diwrnod cynt, ac i ddeall beth fyddai ei effaith ar allu plant i gael mynediad i'w cam nesaf. I'r mwyafrif o fyfyrwyr, roedd y cam nesaf hwnnw'n golygu astudio mewn addysg bellach.

Fodd bynnag, fel y gwyddoch, bu gwrthdaro enfawr ledled y DU ynghylch effaith yr algorithm, ei annhegwch, a sut yr oedd plant mewn ysgolion neu golegau mwy mewn ardaloedd difreintiedig fel pe baent yn cael eu cosbi i raddau mwy na'r rheini mewn mannau eraill. Nid yw hynny i gyd yn berthnasol i Gymru: yma, y ddadl a gyflwynwyd gan y llywodraeth, y bwrdd arholi a Chymwysterau Cymru oedd bod dangosydd llawer gwell o gyrhaeddiad presennol ar gyfer SU oherwydd bod gennym y radd UG eisoes. Yn dilyn trafodaethau ledled y DU, penderfynodd Llywodraeth Cymru symud i sefyllfa lle gallai graddau a aseswyd gan ganolfannau, sef y rhai a gyflwynwyd gan ysgolion i'r cyrff arholi sy'n cynrychioli'r hyn y credent y byddai myfyrwr yn ei gyflawni'n rhesymol yn yr haf, wedi'u defnyddio yn ogystal â gradd UG y flwyddyn flaenorol, ac yn ogystal â gradd yr algorithm.

Rydym yn gwybod bod hyn wedi effeithio ar rai o'n myfyrwyr, gan gynnwys gwneud mynediad i'w cwrs AU dymunol yn fwy heriol nag y byddem wedi'i obeithio. Rydym yn gweithio i ddatrys materion fel y rhain. Cyfnod Allweddol 5 fel rheol yw'r mwyaf syml o ganlyniadau'r arholiadau, ond eleni roedd yn fwy o broblem oherwydd y dryswch ynghylch y graddau, ac oherwydd bod prifysgolion eisoes wedi ymateb i'r myfyrwyr ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau i ddechrau, ac yna'n gorfod edrych ar sut i reoli eu cynigion ar ôl i'r dull newid. Roeddem mewn cysylltiad agos iawn â'n 4 pennaeth uwchradd i ddeall yr hyn yr oeddent yn ei wneud i sicrhau bod eu dysgwyr yn gallu cyrchu'r cyrsiau AU a ddymunir. Mewn cyfarfod dilynol o'r pwyllgor hwn, byddwn yn gallu darparu data cyrchfan o'n hysgolion - rwy'n credu y bydd hynny'n fwy effeithiol am eleni, yn hytrach na meddwl am nifer y plant a gyflawnodd drothwyon penodol.

O ran Cyfnod Allweddol 4: Nododd cyhoeddiad y Gweinidog yn ystod wythnos 17eg Awst y byddai myfyrwyr TGAU yn cael yr uchaf o naill ai eu gradd a asesir yn y ganolfan neu'r radd a bennir gan yr algorithm. Y cyntaf fydd yn pennu'r graddau mwyaf arwyddocaol ar gyfer y garfan eleni. Rydym wedi bod yn glir iawn gyda'n hysgolion na fyddwn yn gallu defnyddio canlyniadau TGAU at ddibenion atebolrwydd fel yr ydym o'r blaen oherwydd mympwyon y system a'r prosesau eleni. Fel y soniwyd yn gynharach, rydym yn ceisio symud i ffwrdd o ddull cyhoeddedig a chyhoeddus, i un mwy arloesol. Ond mae'r newidiadau sydd wedi digwydd yn yr haf mor sylweddol nes ei bod hi'n anodd iawn i ni wneud unrhyw beth yn yr ysgol. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n hysgolion yn ystod yr wythnosau nesaf i ddeall beth ddigwyddodd yn yr haf, y tu hwnt i'r prif ddata, ac i sicrhau bod eu paratodau ar waith ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Er mwyn rhoi synnwyr o raddfa'r newid mewn graddau: yn 2019, cyrchodd 7% o fyfyrwyr radd A*, yn 2020 roedd yn 12.1%. Ar gyfer myfyrwyr sy'n cyrchu graddau A*-A, roedd yn 18.4% yn 2019 a 25.9% yn 2020. Symudodd A*-C (C yw'r hen linell 'Llwyddiant') o 62.8% yn 2019 i 74.5% yn 2020. Cafodd y gyfradd basio lawn, A*-G,

gynnydd llawer llai, o 97.2% yn 2019 i 99.6% yn 2020. Gan fod y symudiad yn sylweddol, mae'n rhaid i ni fod yn ofalus iawn ynglŷn â sut rydyn ni a'r ysgolion yn defnyddio'r data. Rwy'n falch iawn bod y broses yr aethom drwyddi gyda'r ysgolion yn ystod y flwyddyn yn rhoi syniad da o'u trywydd; maent i raddau helaeth wedi bod yn unol â'u llwybrau a nodwyd. Rydym wedi bod yn glir fel cyfarwyddwyr ledled Gwent a rhanbarth GCA ein bod am ddod o hyd i ddull cyffredin o rannu'r data a'r dadansoddiadau sydd gennym.

Pan ddown â'r wybodaeth honno yn ôl i'r pwyllgor hwn, byddwn yn ceisio deall rhai o'r ddeinameg o amgylch y Cap-9, sef y prif fesur ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4, sy'n cynnwys 9 slot cymhwyster. Mae 3 o'r rhain yn benodol (mesur llythrennedd [y gorau o lenyddiaeth neu iaith Saesneg neu Gymraeg], y mesur rhifedd [y gorau o fathemateg neu rifedd], a'r mesur gwyddoniaeth [y radd orau o TGAU gwyddoniaeth]), a gellir llenwi'r 6 slot sy'n weddill gyda'r canlyniadau gorau y mae'r dysgwyr yn eu cyflawni. Yn hytrach na chymharu carfan eleni â'r rhai blaenorol, byddwn yn ystyried gwahaniaethau posibl o fewn carfan eleni: bechgyn a merched, PYDd a dysgwyr nad ydynt yn PYDd, ac ati. Byddwn yn ystyried meysydd eraill o ddiddordeb, megis perfformiad pwnc.

Yn yr un modd â Chyfnod Allweddol 5, mae cyrchfannau yn bwysig iawn o ran Cyfnod Allweddol 4, gan y bydd llawer o fyfyrwyr yn penderfynu beth y byddant yn ei astudio ar Safon Uwch, a/neu ba sefydliad y byddant yn ei fynychu (aros yn yr un lle, mynychu coleg, cychwyn prentisiaeth, ac ati). Daeth sicrhau bod y myfyrwyr wedi'u cynghori'n dda eleni yn hanfodol i'n hysgolion, sydd wedi gweithio'n ofalus gyda'u myfyrwyr i drafod gyda nhw a'u cynghori am eu hopsiynau a'u cyfleoedd gorau. Rydym yn gweld niferoedd cynyddol o blant yn aros ymlaen yn ein chweched dosbarth, sy'n gadarnhaol iawn, gan ein bod ni eisiau amgylchedd ffyniannus ôl-16 yn Sir Fynwy.

Her:

A wnaeth unrhyw fyfyrwyr golli allan ar leoedd AU, oherwydd y tri math gwahanol o raddau?

Ar hyn o bryd, nid oes gennym ffigurau ar gyfer faint o ddisgyblion yn Sir Fynwy a fethodd ar eu dewis cyntaf. Byddwn yn ceisio darganfod hynny yn ystod y dadansoddiad Cyrchfan. Fel rheol, mae yna rai disgyblion nad ydyn nhw'n derbyn y graddau roedden nhw'n gobeithio amdanyn nhw, er mwyn mynd i'w prifysgol dewis cyntaf. Mae proses UCAS yn caniatáu iddynt ddewis ail ddewis, ar gyfer y posibilrwydd hwn. Eleni, cafodd rhai plant fynediad at glirio, y broses lle mae pob un o'r lleoedd prifysgol nad ydynt wedi'u llenwi fel cynigion dewis cyntaf neu ail ddewis ar gael i'r boblogaeth gyffredinol o fyfyrwyr. Gall myfyrwyr fynd i mewn i leoedd clirio pe bai eu graddau'n well neu'n waeth na'r disgwyl. Rydym yn gwybod bod nifer benodol o fyfyrwyr wedi cyrchu clirio, a allai awgrymu eu bod wedi colli allan ar eu dewis cyntaf.

Wrth wneud cais am le mewn prifysgol, a oes rhaid i'r myfyrwyr nodi pa asesiad (UG, GAC, Algorithm) a ddefnyddiwyd i gyfrifo eu graddau?

Nid wyf yn credu bod unrhyw ofyniad i'r myfyrwyr ddatgelu'r modd y pennwyd eu graddau. Gweithiodd y byrddau arholi trwy'r broses a phenderfynu eu hunain pa radd y dylid ei dyrannu i bob disgybl. Roedd tri newidyn i'w hystyried, a chymerwyd y radd uchaf ymhlith y rhain.

Sut y byddwn yn paratoi ar gyfer canlyniadau'r flwyddyn nesaf, o gofio'r potensial ar gyfer cyfnodau clo lleol ac ati?

Fe wnaethon ni gwrdd fel y 22 cyfarwyddwr addysg dydd Gwener diwethaf gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, a hwn oedd un o'r cwestiynau cyntaf a ofynnwyd. Y cyhoeddiad pwysig yn ddiweddar fu'r adolygiad annibynnol i'r hyn a ddigwyddodd yr haf hwn - bydd cyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru yn gwneud hyn. Rwy'n credu y bydd adroddiad interim i'r gweinidog ym mis Hydref, gydag adroddiad terfynol erbyn mis Rhagfyr. Y neges gan Lywodraeth Cymru yw na fydd penderfyniad brysiog ynghylch arholiadau'r flwyddyn nesaf. Mae syniadau posib wedi cael eu crybwyll yn y wasg, fel symud dyddiadau'r arholiadau yn ôl, gan roi'r amser i ddisgyblion wneud iawn am yr hyn a gollwyd eleni - fy nealltwriaeth i yw nad yw hyn mor hawdd ag y gallai swnio. Mae awgrymiadau eraill yn cynnwys defnyddio graddau a aseswyd mewn canolfannau eto ond gyda lefel gymedroli uwch, naill ai o gyrff arholi neu gymedroli yn yr ysgol, efallai'n cynnwys cymedroli rhwng ysgolion (na ddigwyddodd eleni).

Gan fod y graddau wedi bod yn uwch yn gyffredinol, a yw'r cyrsiau wedi codi eu gofynion?

Pe credid bod yr algorithm ar y cychwyn wedi bod o fudd mwy i rai grwpiau nag eraill, y risg fyddai y gallent gael mynediad i leoedd ond y ffordd y defnyddiwyd y GAC, roedd gan y system gyfan y pwysau chwyddiant hwnnw, ac felly byddai pawb wedi elwa ohono - os, yn wir, roedd y pwysau hwnnw'n bodoli. Felly bydd yn ddiddorol gweld beth yw'r cynlluniau, a sut mae AU fel sector yn ymateb i'w gynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Y cyflwyniadau ar gyfer UCAS yw tymor yr hydref, felly bydd myfyrwyr yn meddwl nawr am ble maen nhw'n mynd i wneud cais (mae disgyblion eisoes wedi gwneud cais am leoedd milfeddygol a meddygaeth). Bydd y cynigion gan brifysgolion eisoes wedi'u gwneud; felly mae disgyblion eisoes yn gwybod a ydynt wedi cael eu derbyn gan eu sefydliad cyn iddynt dderbyn eu canlyniadau arholiad. Mae'r prifysgolion hefyd yn derbyn y canlyniadau gerbron yr ysgolion. Felly ni fydd cyfle wedi bod i newid y cynigion i blant eleni ond y flwyddyn nesaf efallai y byddan nhw'n meddwl am bwy maen nhw'n eu cynnig a faint o lefydd maen nhw'n eu cynnig (ar gyfer cyrsiau poblogaidd maen nhw fel arfer yn 'gor-gynnig', gan wybod ni fydd pob plentyn yn cyflawni ei ganlyniadau disgwylidig mewn blwyddyn gyffredin). Felly, bydd yn rhaid aros i weld beth sy'n digwydd yn ystod y flwyddyn.

Crynodeb y Cadeirydd:

Diolch i Mr Mclean am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am yr hyn sy'n sefyllfa gymhleth iawn, yng Nghyfnod Allweddol 4 a 5. Wrth gwrs, bu cymaint o ddiddordeb yn y cyfryngau yn ystod yr haf, mae wedi bod yn anhygoel o anodd. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i athrawon hefyd am eu mewnbwn a'u hamser, yn enwedig amser athrawon TGAU a Chweched Dosbarth a dreuliodd dros gyfnod y canlyniadau. Y prif bryder yw tegwch, yn enwedig wrth symud ymlaen i garfan y flwyddyn nesaf oherwydd bod tarfu ar eu haddysgu, gyda darn sylweddol o addysgu wedi'i gollu - ac nid ydym yn gwybod beth fydd yn digwydd yn ystod y misoedd nesaf sy'n arwain at y set nesaf o arholiadau. Byddwn yn dychwelyd at y pwnc hwn yn ddi-os.

4. Dychwelyd i'r Ysgol: Diweddariad Llafar gan Will McLean

Ar ddiwedd y tymor diwethaf, briffiais y pwyllgor hwn ynghylch dychwelyd i'r ysgol: bryd hynny, dychwelwyd i'r ysgol am dair wythnos ar ddiwedd yr haf ar gyfer sesiynau cyswllt 'aros mewn cysylltiad', heb ddim mwy na 30% o ddisgyblion yn yr ysgol ar unrhyw un adeg. Roedd y cyfnod tair wythnos hwn yn llwyddiannus iawn. Cawsom un o'r cyfraddau cyfranogi uchaf yng Nghymru, gyda'r disgyblion a'r staff yn hapus iawn i fod yn ôl. Dros yr haf, mae'r penaethiaid a'r timau arweinyddiaeth, cydweithwyr ym maes arlwyio a thrafnidiaeth, ac ati, wedi gwneud llawer iawn o waith i wneud yn siŵr y gallem gyflawni'r arweiniad a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer dychwelyd i'r ysgol yr hydref hwn. Fel staff PPhI, gwnaethom gwrdd â phenaethiaid bob dydd Gwener yn ystod 3 wythnos olaf y gwyliau i weithio trwy gwestiynau ac ymholiadau. Gwnaethom hefyd gwrdd â chynrychiolwyr undebau llafur a chyrrff addysgu bob dydd Gwener i sicrhau eu bod yn gyffyrddus â sut mae pethau'n dod yn eu blaenau.

Rydym hefyd wedi gweld newidiadau sylweddol i'r canllawiau: rydym bellach ar fersiwn 3. Mae'n nodi'n eithaf clir bod gan ysgolion bythefnos i adeiladu at bresenoldeb ysgol iawn. Roeddem wedi trafod hyn yn lleol, gan benderfynu ei bod yn briodol i ysgolion gael 2 ddiwrnod heb unrhyw ddisgyblion ar y safle, er mwyn paratoi eu cyfleusterau a'u prosesau yn ddigonol. Mabwysiadwyd y ddau ddiwrnod hyn o baratoi yn genedlaethol wedi hynny, a byddent yn ychwanegol at y 6 diwrnod HMS ar gyfer datblygu staff sydd i fod i gael eu cymryd trwy gydol y flwyddyn. Bydd yr holl ysgolion yn dychwelyd i bresenoldeb llawn erbyn dydd Llun 14eg.

Bydd mwyafrif helaeth yr ysgolion cynradd wedi cyrraedd eu presenoldeb llawn cyn 14eg, gyda llawer yn gwneud hynny yn y dyddiau nesaf. Mae 3 o'r 4 ysgol uwchradd yn gweithio trwy raglen dderbyn dreiglol: cychwynnodd y mwyafrif yr wythnos diwethaf gyda blynyddoedd 7 a 12 (blynyddoedd trosglwyddo), gan symud efallai i flynyddoedd 13 a 10 ar ôl hynny, ac ati. Mae un ysgol yn cymryd agwedd wahanol, gyda blynyddoedd 7 a 12 mewn yn ystod yr wythnos ddiwethaf, ac yna 11 a 13 yr wythnos hon, fel y gallant weithio gyda nhw fel grwpiau arholiad allweddol i ddal i fyny lle bo angen, gyda gweddill yr ysgol yn derbyn cynnig dysgu cyfunol h.y. gweithio gartref tan 14eg.

Rydym wedi gweithio'n ofalus iawn gyda chydweithwyr AD i sicrhau bod aelodau staff a gafodd eu cysgodi yn gallu dychwelyd i'r ysgol yn ddiogel. Mae'r canllawiau'n glir ynghylch mesurau y dylid eu cymryd, pob un wedi'i seilio ar atal fel yr agwedd bwysicaf: yn ôl y disgwyl, ni ddylai unrhyw un sy'n symptomatig, neu sydd ag aelod o'r teulu symptomatig, fod yn yr ysgol; mae mesurau fel glanhau dwylo, mwy o lanhau mewn mannau cymunedol, "ei ddal, ei finio, ei ladd", ac ati, hefyd yn cael eu pwysleisio. Mae lleihau cyswllt rhwng unigolion a chynnal pellter cymdeithasol hefyd yn ystyriaethau allweddol. Gwnaeth Llywodraeth Cymru yn glir nad oedd yn rhaid i bellter cymdeithasol fodoli rhwng plant, ond roedd rhwng grwpiau cyswllt. Yn nodweddiadol, mewn ysgol gynradd byddai grŵp cyswllt yn ddosbarth. Cyflwynwyd hwnt-gychwyniadau i'r diwrnod ysgol, ac ni fyddai amser cymunedol yn neuaddau'r ysgol. Darperir cinio yn yr ystafell ddosbarth, ac mae'r egwyliau cinio hynny yn wasgarog. Mae yna fannau chwarae gwahanol i bob grŵp. Mae rheolaeth grŵp cyswllt o'r fath yn haws ar lefel gynradd nag ar lefel uwchradd oherwydd er mwyn i'r cwricwlwm weithio yn yr uwchradd mae angen llawer mwy o athrawon, gan addysgu ystod ehangach o bynciau. Er mwyn rheoli hyn, mae grwpiau blwyddyn wedi dod yn grwpiau cyswllt. Rhaid i athrawon a staff eraill gynnal pellter cymdeithasol 2 fetr.

Cafwyd arweiniad ychwanegol ynghylch sut y dylid rheoli plant yn yr ystafell ddosbarth e.e. plant mewn rhesi sy'n wynebu'r tu blaen, yn hytrach nag wynebu ei gilydd. Trafodwyd offer amddiffynnol lle bo angen, a rôl bwysig y strategaeth Profi Olrhain

Diogelu wrth gynnal hyder. Yr un maes o fywyd ysgol sydd wedi bod yn fwy heriol yw trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol. Rydym wedi symud i sefyllfa bod yn rhaid i unrhyw blentyn dros 11 oed wisgo gorchudd wyneb ar ein cludiant ysgol. Rydym wedi defnyddio'r dull y byddwn yn gweithredu fel tywyswyr - gan gymeradwyo pob un o'r asesiadau risg - ond ni allwn osod dulliau gweithredu ledled y sir oherwydd bod cymaint o ysgolion yn wahanol yn natur eu hystâd: Rhaglan, gyda dosbarthiadau cynllun agored, o'i gymharu â Chantref, ysgol hŷn ag ystafelloedd dosbarth traddodiadol, er enghraifft. Mae gorchuddion wyneb yn enghraifft arall o hyn. Mae 2 o'r 4 ysgol uwchradd wedi cymryd agwedd seiliedig ar risg tuag at orchuddion wyneb. Penderfynodd Brenin Harri VIII yn gynnar, oherwydd nad yw eu coridorau'n eang iawn ac felly na allent warantu pellter cymdeithasol, bydd eu disgyblion yn gwisgo gorchuddion wyneb. I'r gwrthwyneb, mae Cas-gwent yn teimlo'n gyffyrddus yn ei asesiad risg. Rwyf mewn cysylltiad â phob un o'r Penaethiaid ar y mater hwn, ac yn deall eu safbwyntiau. Mae'r llun cymysg hwn yn cael ei ailadrodd ledled Gwent. Mae Caerffili wedi penderfynu cael gorchuddion wyneb yn yr ystafell ddosbarth, er nad yw hynny yn yr arweiniad. Cawsom sgwrs dda iawn yr wythnos diwethaf gyda Steve Davies, Cyfarwyddwr Addysg yng Nghymru, yn cadarnhau y dylai popeth fod yn ofalus a sicrhau bod y mesurau a gymerir yn gymesur â'r risg, gan ganiatáu lle ar gyfer gwaethgiad, os oes angen.

Her:

Rydym wedi ceisio sicrhau nad yw rhieni'n ymgynnull wrth gasglu eu plant o ysgolion cynradd; a oes gennym lun o hynny ledled y sir?

Oes, bydd angen atgyfnerthu hyn. Mae gen i gyfarfod y prynhawn yma gyda'n penaethiaid lle bydd y mater hwn yn sicr o gael ei godi. Mae dwy ysgol wedi codi'r posibilrwydd o gau ffyrdd er mwyn rheoli'r rhieni sy'n ciwio'n fwy effeithiol. Os penderfynwyd bod angen gwneud rhywbeth yna byddwn yn sicr yn sicrhau bod y neges yn cael ei chyhoeddi ledled y sir.

Efallai, unwaith y bydd rhieni wedi dod i arfer â'r syniad o beidio â mynd â'u plant yn uniongyrchol at ddrws yr ysgol, gallwn fynd i'r afael â'r cysyniad o 'deithiau rhwng y cartref a'r ysgol' ei hun - yn bennaf ar gyfer ystyriaethau diogelwch.

Gallwn, rydym allan i ymgynghori ar ein mesurau Teithio Gweithredol ar hyn o bryd - mae ysgolion yn rhan sylfaenol o hynny. Ar ôl siarad â sawl pennaeth, gwn eu bod yn ymdrechu'n galed iawn i ennyn diddordeb eu plant gyda chwestiynau ynghylch sut y gallant ddod i'r ysgol yn ddiogel heb gar. Mae hon yn ystyriaeth allweddol i ni, yn enwedig yn y cynllun ehangach o uchelgeisiau lleihau hinsawdd ac addasu.

A yw gyrwyr bysiau ysgol yn gwisgo masgiau? A oes mwgwd gwahanol ar gyfer bysiau ac ardaloedd cymunedol? Os nad oes masgiau, a yw'r ysgol yn eu darparu?

Rhaid i yrwyr bysiau wisgo mwgwd oni bai bod ganddyn nhw gyflwr meddygol sy'n eu hatal rhag gwneud hynny. Mae yr un peth i blant ar y bws. Mae'r wybodaeth wedi'i chyfleu'n glir i'r contractwyr a'r gyrwyr. Gellir gwisgo'r un mwgwd yn y ddau leoliad. Mae cyflenwad bach o fasiau eisoes ar gael i'r ysgolion, os oes angen darparu un ar blant.

Ddoe, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid a fydd yn caniatáu i bob awdurdod lleol ddarparu cyflenwad o orchuddion wyneb i bob ysgol uwchradd.

Beth yw prosesau penodol cyfnod clo fel yr un yng Nghaerffili - er enghraifft, a yw grŵp blwyddyn gyfan wedi'i gloi gyda'i gilydd am 14 diwrnod?

Mae'n dibynnu ar sut y cysylltir. Daw'r cyngor ynghylch hunan-ynysu gan gynghorwyr Profi ac Orlhain, nid o'n dehongliad o ganllawiau. Rydym yn deall y pwynt y mae'n rhaid i ni gyfathrebu â'n cydweithwyr ym maes P&O, ac mae hynny hefyd yn ymwneud â'r ffaith eu bod yn cael eu cynghori am unrhyw brofion cadarnhaol gan y drefn brofi hefyd. Roedd yr achos yng Nghaerffili yn athro a brofodd yn bositif: penderfynwyd bod ei gyswllt â'r dosbarth yn un agos, felly gofynnwyd i'r dosbarth hunan-ynysu am 14 diwrnod. Ar y pwynt hwnnw, mae'n rhaid i'r unigolion hynny hunan-ynysu ond nid yw aelodau'r teulu yn gwneud hynny. Os daw un o'r plant hynny yn symptomatig, dylent gael prawf, fel y dylai aelodau eu teulu.

Beth yw ein dyraniad o gynorthwyrwyr addysgu ychwanegol a ddarparwyd i helpu plant i ddal i fyny ar yr amser y maent wedi'i golli?

Dyrannodd Llywodraeth Cymru £28m ar gyfer y Rhaglen Dysgu Carlam (RhDC). Mae cyfran Sir Fynwy o hynny dros y flwyddyn lawn tua £517,000. Fe wnaethom ddsbarthu hynny i ysgolion yr wythnos hon, gyda'r telerau ac amodau: mae hyn ar gyfer recriwtio athrawon ar gyfer y flwyddyn academaidd hon i helpu ymyriadau mewn ysgolion. Mae yna ystod o wahanol ddulliau o wneud hynny; mae penaethiaid yn gweithio trwy'r hyn y maen nhw'n ei ystyried fel y dulliau gorau yn eu hysgolion i blant dderbyn y dysgu carlam hwnnw, lle mae ei angen.

Sut y penderfynwyd ar ein dyraniad RhDC? Faint o athrawon y mae hynny'n eu cynrychioli bob blwyddyn?

Roedd y dyraniad yn dibynnu ar gyfanswm niferoedd y disgyblion, canran y disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, niferoedd myfyrwyr o gefndir Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME), a nifer y dysgwyr sydd mewn addysg gyfrwng Gymraeg ond sy'n dod o gartref cyfrwng Saesneg - yn amlwg, mae peidio bod yn yr ysgol wedi'i nodi fel risg allweddol i'r dysgwyr hynny. Penderfynodd Llywodraeth Cymru gyllid ar raniad 50/50 rhwng y ddau ffactor hynny. Mewn trafodaeth â phenaethiaid ac o ran ein dyheadau a'n hymrwymiad i'n PYDd a chau'r bwlch, gwnaethom addasu hynny ychydig fel ei fod yn rhaniad 60/40: dyrannwyd 60% o'r cyllid ar nifer y disgyblion sy'n PYDd, BAME ac yn cael eu dysgu yn Gymraeg ond o gartref cyfrwng Saesneg, a 40% ar gyfanswm yr ysgolion. Gwnaethom drafod hynny gyda'r penaethiaid; un peth a wnaethom mewn ymateb i gais y penaethiaid oedd defnyddio'r rhifau PYDd mwyaf diweddar a gawsom, a gafwyd gan ein gwasanaeth Budd-daliadau, gan ein bod wedi bod yn talu taliadau PYDd yn uniongyrchol ers i'r cyfnod clo dechrau.

A fydd rhaglen i helpu plant PYDd sydd wedi cwmpo ar ôl, yn ychwanegol at yr athrawon ychwanegol ac ati sydd eisoes wedi'u dyrannu?

Atebodd Sharon Randall-Smith y cwestiwn hwn:

Mewn unrhyw sgysiau ag ysgolion, mae'r dysgwyr hynny bob amser yn ffocws allweddol. Yn ogystal â'r RDC y bydd ysgolion yn gallu ei chyrchu, mae ganddyn nhw eu Grant Datblygu Disgyblion eu hunain, y maen nhw'n ei dargedu tuag at anghenion ein disgyblion bregus, gan gynnwys disgyblion PYDd. Mae'r cynlluniau hynny'n cael eu datblygu a'u gweithredu ar hyn o bryd â'u cynghorwyr her. Mae ein hysgolion yr un mor ymwybodol â ni fod bwllch mewn cyrhaeddiad, a bod angen llawer o gefnogaeth ar y grŵp hwn. Mewn llawer o achosion pan fydd ysgolion yn edrych ar bwyr fydd yn dod yn ôl a phryd, mae gyda llygad ar y grwpiau bregus hynny i weld pwy fydd angen yr amser hirach yn ôl yn yr ysgol i ddod i arfer â bod yn yr ysgol eto, cyn i bawb ymuno ar 14eg Medi. Byddwn ni, a GCA, yn parhau i weithio gydag ysgolion i sicrhau eu bod yn gwneud eu gorau i gefnogi'r disgyblion hyn.

Mae Clybiau Brechwast wedi'u canslo ac nid oes darpariaeth o fwyd poeth amser cinio, beth yw'r ystyriaethau ar gyfer effaith hyn ar ddisgyblion PYDd?

Rydym ni'n gwybod pa mor bwysig yw clybiau brechwast i rieni. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n hysgolion i sicrhau eu bod yn ôl ar waith o 14eg Medi. Bydd yr hyn sydd wedi digwydd yn ystod yr ychydig ddyddiau diwethaf o ran rheoli grwpiau cyswllt yn golygu bod cwestiynau pellach yn ymwneud â chlybiau brechwast. Ond yn sicr bydd y clybiau'n faes allweddol arall yn fy nghyfarfod y prynhawn yma gyda phenaethiaid. Hyd at ddiwedd yr wythnos hon, rydym yn parhau i dalu teuluoedd am y plant hynny sydd â hawl i PYDd. Oherwydd natur doredig dychwelyd i'r ysgol, heb bawb i mewn ar unwaith, nid oeddem am fentro i blant fethu â chael gafael ar fwyd ar y diwrnodau pan nad ydyn nhw i mewn - felly mae pawb yn cael eu talu yn ystod y pythefnos hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn ein cefnogi yn hyn o beth. Mae ein cydweithwyr arlwygo wedi gweithio'n agos iawn gydag ysgolion i ddarparu'r hyn sydd orau i bob ysgol, sydd yn y rhan fwyaf o achosion yn fag brechdan 'cydio a mynd', gyda chwpl o ddewisiadau bob dydd. Fy nealltwriaeth i yw bod cynnig ffyn bara poeth ddwywaith yr wythnos. Wrth i ni edrych tuag at y tymor byr i ganolig, rydym yn ystyried sut y gall prydau poeth ddychwelyd, gan ei bod mor bwysig bod y disgyblion PYDd hynny yn cael eu cefnogi wrth i'r misoedd oerach ddechrau.

Mae clybiau ar ôl ysgol hefyd yn bwysig iawn ar gyfer cefnogi rhieni sy'n dychwelyd i'r gwaith, a oes diweddariad ar y rheini?

Oes, mae'r her yn debyg iawn i glybiau brechwast. Er enghraifft, mae gan un ysgol dros 100 o ddisgyblion yn ei chlwb brechwast: mae'n rhaid i'r plant hyn aros yn eu grwpiau cyswllt, wedi'u pellhau'n gymdeithasol. Efallai na fydd lle digon mawr iddynt i gyd, ond unwaith y bydd mwy nag un ystafell yn cael ei defnyddio, rhaid dyblu'r oruchwyliaeth - mae'r anawsterau'n parhau i luosi. Mae'r materion hyn yn cael eu hefelychu'n union ar gyfer clybiau ar ôl ysgol. Mae angen i ni weithio trwy'r anawsterau hyn. Mae Sue Hall, sy'n gweithio gyda'n darparwyr blwyddyn gynnar, a'r partneriaid sy'n darparu rhai o'n clybiau ar ôl ysgol, yn rhan allweddol o'n trafodaethau. Rydym yn wirioneddol awyddus i'r ddau glwb ailddechrau, ond mae yna lawer o ystyriaethau ymarferol, gan gynnwys glanhau'r ardaloedd ar ôl i grwpiau eu defnyddio, y risg uwch o drosglwyddo o grwpiau a allai gymysgu, ac ati.

Crynodeb y Cadeirydd:

Diolch i'r Swyddogion Mclean a Randall-Smith am ddiweddarau'r pwyllgor, a diolch yn fawr i'r ysgol, staff trafnidiaeth, arlwyo a glanhau am eu gwaith. Mae'r pwyllgor wedi cael sicrwydd ar nifer o bwyntiau, er y byddwn yn sicr yn dychwelyd at y pynciau hyn mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Bydd cynlluniau wrth gefn sy'n ymwneud ag unrhyw gyfnodau clo yn y dyfodol yn bryder mawr.

5. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar 9fed Gorffennaf 2020 fel cofnod cywir.

6. Cynllunio Gwaith

Gofynnodd y Cynghorydd Brown am ystyried y strategaeth ADY, fel yr amlygwyd yn adroddiadau blaenorol Estyn, yn ogystal â diweddariad ar y disgyblion o ysgol Dŷ Mounon, ar ôl iddi gau, gan roi sylw arbennig i'r mathau amgen o addysgu a allai fod ar gael iddynt. Mae yna hefyd fater, o ystyried yr hyn sy'n cael ei wario ar ADY, a yw'n gost-effeithiol ystyried ysgol arbennig, neu'n well rhoi gwaith ar gontract allanol.

Roedd y Cynghorydd Groucott yn cofio y cynigiwyd yn y Cyngor Sir y dylid cael swyddogion penodol yn y byd ôl-COVID-19 sy'n edrych ar yr holl ddarlun o gefnogi teuluoedd sydd wedi cael eu effeithio'n arbennig. Gan y bydd gan lawer o'r teuluoedd hyn blant, gallai'r swyddogion hynny adrodd i'r pwyllgor hwn ar y problemau sy'n wynebu teuluoedd yn ystod y dirwasgiad sydd i ddod, a'r hyn y gall yr awdurdod ei wneud i geisio lleddfu rhain.

Hoffai'r Cynghorydd Thomas wahodd Jane Rodgers, Pennaeth Gwasanaethau Plant, i adrodd ar blant sydd mewn gofal, a phlant bregus. Bydd yn bwysig parhau i gydbwysu buddiannau'r pwyllgor rhwng addysg a phryderon ehangach.

Hoffai'r Cynghorydd Powell i'r pwyllgor ystyried pa gymorth y gellir ei roi i bobl ifanc sydd wedi gadael yr ysgol ond nad ydynt eto mewn gwaith, o ystyried pa mor uchel fydd y lefel diweithdra o ganlyniad i COVID-19. Efallai y bydd angen ystyried hyn yn nes ymlaen, o ystyried pa mor llawn fydd yr agenda sydd i ddod.

7. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Bydd y cyfarfod nesaf ar ddydd Mawrth 13eg Hydref 2020 am 10.00yb.

The meeting ended at 11.40 am